

Mae eich Gwasanaethau GIG yng Ngwent wedi newid



*Darllenwch y llyfryn hwn i weld
sut yr ydych yn cael mynediad
at wasanaethau.*



MAE GWASANAETHAU GIG YNG NGWENT WEDI NEWID

nawr mae Ysbyty Athrofaol y Faenor ar agor



FFONIWCH 999 NEU EWCH I YSBYTY ATHROFAOL Y FAENOR

Os oes gennych SALWCH A ALLAI BERYGLU BYWYD
neu ANAF DIFRIFOL



EWCH I UNED MÂN ANAFIADAU

Yn Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Ystrad Fawr
neu Ysbyty Aneurin Bevan, os oes gennych fân anaf
(Bydd angen i blant dan 1 oed fynd i Ysbyty Athrofaol y Faenor).



CYSYLLTWCH Â'CH MEDDYG TEULU

Os oes gennych salwch neu bryder
nad yw'n peryglu bywyd.



FFONIWCH GIG 111 Cymru

Os ydych yn sâl, yn ansicr beth i'w wneud ac angen cymorth.
Gallwch hefyd ffonio 111 i gael gofal Meddyg Teulu brys
pan fydd eich meddygfa ar gau.



TRIN GARTREF neu GYSYLLTU Â'CH FFERYLLYDD

Os oes gennych fân salwch neu anhwylder megis llwnc tost,
peswch, llid croen neu salwch ysgafn cyffredin.

Am ragor o wybodaeth ewch i: bipab.gig.cymru.

Dilynwch ni i gael y wybodaeth ddiweddaraf neu i ofyn cwestiwn:

 @BIPAneurinBevan  BwrddIechydAneurinBevan


Newidiadau i wasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys



Agorwyd Ysbyty Athrofaol y Faenor ar 17 Tachwedd 2020 i ddarparu Gofal Critigol ac Arbenigol i bob preswlydd sy'n byw yng Ngwent a De Powys.

Mae'r ysbyty newydd yn darparu canolfan ragoriaeth i drin ein cleifion mwyaf difrifol wael, neu'r rhai ag anafiadau sylweddol, a'r ysbyty fydd yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys ar gyfer cymunedau Gwent.

Agorwyd yr ysbyty yn gynt na'r disgwyl ym mis Tachwedd 2020 i'n helpu i ymateb i bwysau'r gaeaf ac ail don bosibl o COVID-19.



Yn y gorffennol, mae'r gwasanaethau meddygol brys hyn wedi cael eu darparu yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall. Mae'r gwasanaethau hyn wedi eu canoli yn Ysbyty Athrofaol y Faenor i sicrhau bod gofal o'r safon uchaf yn cael ei ddarparu.

Er mwyn osgoi unrhyw oedi posibl i'ch triniaeth, **ffoniwch 999** neu ewch yn syth i **Ysbyty Athrofaol y Faenor** os oes gennych salwch sy'n peryglu bywyd neu anaf difrifol, gan gynnwys:

- Anawsterau anadlu difrifol
- Poen neu waedu difrifol
- Poen yn y frest neu'n amau eich bod yn cael strôc
- Anafiadau trawma difrifol (e.e. ar ôl damwain car)

Peidiwch â mynd i Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall nac unrhyw un o'n hysbytai eraill os oes gennych anaf neu salwch sy'n peryglu bywyd.

Bydd pob plentyn sydd angen aros yn yr ysbyty, neu sydd angen ymweld â'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys neu'r Uned Asesu Brys i Blant, nawr yn cael gofal yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Bydd pob genedigaeth dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol hefyd yn digwydd yn yr ysbyty newydd.

Newidiadau i'n Hysbytai Cyffredinol Lleol



Nawr mae Hysbyty Athrofaol y Faenor ar agor, nid oes yna Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys (A&E) llawn yn Ysbyty Brenhinol Gwent nac yn Ysbyty Nevill Hall. Mae hyn oherwydd nad oes ganddynt yr ystod o wasanaethau cefnogol mwyach i gefnogi Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys yn llawn. Mae yna Uned Mân Anafiadau 24/7 yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Ystrad Fawr. Mae Ysbyty Aneurin Bevan yn parhau i fod ag Uned Mân Anafiadau, ar agor 9am-7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc). Mae ein Hunedau Mân Anafiadau yn cael eu harwain gan Ymarferwyr Nyrso Brys.

Gellir trin plant 1 oed a hŷn yn ein Hunedau Mân Anafiadau, **ond os oes ganddynt salwch sy'n peryglu bywyd neu anaf difrifol, bydd angen iddynt fynd i Ysbyty Athrofaol y Faenor.**

Sylwch y bydd angen i **bob plentyn dan 1 oed** fynd i Ysbyty Athrofaol y Faenor, hyd yn oed os oes ganddynt fân anaf neu salwch.

Mae ein Hysbytai Cyffredinol Lleol yn darparu ystod eang o wasanaethau ac yn darparu gofal cyffredinol ac arferol, gan gynnwys:

- Unedau Mân Anafiadau
- Gwelyau i gleifion mewnol
- Llawdriniaethau wedi'u cynllunio
- Gwasanaethau Adsefydlu a Therapi
- Aseidiadau, sganiau a phelydr-x
- Unedau Asesu Meddygol
- Clinigau i gleifion allanol
- Apwyntiadau cleifion allanol i blant
- Gofal Eiddilwch i bobl hŷn
- Clinigau Cynenedigol ac Ôl-enedigol
- Swit Geni o dan Arweiniad Bydwragedd



Pryd y dylech chi fynd i Uned Mân Anafiadau



Gellir trin oedolion a phlant dros flwydd oed yn ein Hunedau Mân Anafiadau. Mae'r Unedau hyn yn trin ystod eang o anafiadau. Mae pob Uned yn cael ei rhedeg gan dîm profiadol o Ymarferwyr Nyrsio Brys, Nyrsys Brysbennu a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd medrus iawn, sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig.

Gallwch fynd i un o'n Hunedau os oes gennych:

- Anaf i fraich neu goes, sy'n cynnwys esgyrn wedi torri a datgymalu bysedd traed neu fysedd
- Clwyfau, crafiadau a mân losgiadau
- Anafiadau i'r pen, os na fuoch yn anymwybodol ac nad ydych yn cymryd cyffuriau i deneuo'r gwaed
- Anafiadau i'r wyneb, os na fuoch yn anymwybodol
- Mân anafiadau i'r gwddf a'r cefn, ar yr amod eich bod yn gallu symud, nad oes gennych binnau bach yn eich breichiau neu goesau ac nad ydych wedi cwmpo o uchder sy'n fwy na phum gris neu 1m
- Anafiadau i'r llygaid, clust neu drwyn ac ati
- Anafiadau i'r asennau
- Brathiadau gan bryfed, anifeiliaid neu bobl

Gall Unedau Mân Anafiadau ddarparu'r canlynol hefyd:

- Mynediad i Belydr-x am anafiadau
- Cau clwyfau, gan gynnwys pwytho a gludo
- Rhwymau
- Castiau plastr, sblintiau, strapiau a slingiau
- Adleoli mân ddatgymaliadau
- Tynnu pethau estron o'r corff
- Golchi llygaid
- Rhoi meddyginiaeth i drin yr anaf



Nid yw Unedau Mân Anafiadau yn trin mân afiechydon. Os ydych chi'n ansicr a ddylech chi ymweld ag Uned Mân Anafiadau ai peidio, ffoniwch 111 i gael cymorth a chyngor.

Beth i'w wneud os bydd eich plentyn yn cael anaf neu salwch



Mae ein gwasanaethau ysbyty i blant wedi newid nawr mae Ysbyty Athrofaol y Faenor ar agor.

Bydd plant sydd angen triniaeth frys yn mynd i Ysbyty Athrofaol y Faenor, lle mae Nyrsys a Meddygon Plant Arbenigol wedi eu lleoli'n ganolog. Bydd pob gwely ysbyty i blant ac **Uned Asesu Brys i Blant** hefyd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Mae Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Ystrad Fawr yn parhau i ddarparu ystod eang o apwyntiadau cleifion allanol rheolaidd ar gyfer plant a rhai Llawdriniaethau Achos Dydd Dewisol.

Mae **Unedau Mân Anafiadau** Lleol i blant (dros 1 oed) wedi aros yn Ysbyty Brenhinol Gwent neu Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Ystrad Fawr, ac Ysbyty Aneurin Bevan. **Bydd angen i bob plentyn dan 1 oed gael eu gweld yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.**

Beth sydd ar gael i blant yn ein prif ysbytai:

	Ysbyty Athrofaol y Faenor	Ysbyty Brenhinol Gwent	Ysbyty Nevill Hall	Ysbyty Ystrad Fawr	Ysbyty Aneurin Bevan
Wardiau Cleifion Mewnol	✓	X	X	X	X
Uned Asesu Plant	✓	X	X	X	X
Mân Anafiadau	X	✓	✓	✓	✓
Argyfyngau Plant	✓	X	X	X	X
Cleifion Allanol	X	✓ Gwynllyw	✓	✓	✓

Gwasanaethau Mamolaeth: Mae clinigau cynnedigol, genedigaethau arferol dan arweiniad Bydwagedd a chlinigau ôl-enedigol i gyd yn digwydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Ystrad Fawr ac Ysbyty Aneurin Bevan. Bydd pob genedigaeth dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol yn digwydd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, ac mae yna ganolfan ychwanegol ar gyfer genedigaethau dan arweiniad Bydwagedd yn yr ysbyty newydd hefyd.

Ysbytai Cymunedol



Nid yw swyddogaeth ein hysbytai Cymunedol wedi newid.

Mae'r ysbytai hyn yng nghanol ein cymunedau ac yn ein helpu i ddarparu ystod eang o ofal yn agosach at eich cartref.

Mae Ysbyty Aneurin Bevan, Ysbyty Cymuned Cas-gwent, Ysbyty Gwynllyw, Ysbyty'r Sir a Chanolfannau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Monnow Vale a Rhymni yn cynnig ystod o wasanaethau, gan gynnwys Wardiau Adsefydlu, cyfleusterau Pelydr-x, Gwasanaethau Therapi, clinigau cleifion allanol, cyfleusterau Iechyd Meddwl a gwasanaethau Meddyg Teulu.

Gwasanaethau yn eich cymuned



Yn aml, y gwasanaethau gofal iechyd lleol hyn yw'r lle cyntaf i fynd pan fyddwch yn sâl.

- Mae **Meddygon Teulu** yn gweithio ag ystod eang o weithwyr iechyd proffesiynol mewn Meddygfeydd a Chanolfannau Iechyd Lleol. Nid oes angen i chi weld eich Meddyg Teulu bob tro - efallai y bydd eich Meddygfa'n argymhell gweithiwr iechyd proffesiynol arall sy'n well i ddelio â'ch mater, gan gynnwys Nyrsys Practis ac Ardal, Gwasanaethau Plant, Fferyllwyr a gweithwyr proffesiynol Iechyd Meddwl.
- Gall **Optegwyr** lleol helpu gydag unrhyw broblem llygaid sydd angen sylw.
- Gall eich **Deintydd** ddarparu triniaeth frys os oes gennych y ddannoedd neu boen yn y geg.
- Gall **Fferyllfeydd** lleol ddarparu cyngor a thriniaethau ar gyfer cyflyrau cyffredin - nid oes angen apwyntiad arnoch.

GIG 111 Cymru



Gallwch ffonio GIG 111 Cymru os ydych yn sâl, yn ansicr beth i'w wneud ac angen cymorth. Gallwch hefyd ffonio'r rhif hwn i gael gofal Meddyg Teulu ar frys pan fydd eich meddygfa ar gau.

Os ydych yn dost, gallwch hefyd ddefnyddio gwiriwr symptomau ar-lein y GIG - <https://111.wales.nhs.uk/SelfAssessments>

Gall ymarfer corff a chynnal ffordd o fyw iach ein helpu i aros yn iach. Gellir trin llawer o anhwylderau **gartref** trwy ddefnyddio meddyginiaeth dros y cownter a chael digon o orffwys.






GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Ein Hysbytai



Ysbyty Athrofaol y Faenor,

Ffordd Caerllion, Llanfrechfa, Cwmbrân NP44 8YN



Ysbyty Brenhinol Gwent Ffordd Caerdydd, Casnewydd NP20 2UB

Ysbyty Nevell Hall Ffordd Aberhonddu, y Fenni, NP7 7EG

Ysbyty Ystrad Fawr Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7GP

Ysbyty Aneurin Bevan Rhodfa Calch, Glynebwy NP23 6GL

Mae drefniadau newydd ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus i Ysbyty Athrofaol y Faenor. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau teithio gwirfoddol i gleifion ac ymwelwyr.

Am amseroedd teithio lleol, gweler yr adnodd cynllunio teithio AM DDIM ar wefan Traveline, neu ffoniwch 0871 200 2233 (mae galwadau'n costio 12c y funud).

Mae parcio am ddim ar bob safle ysbyty.

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Cysylltwch â ni os hoffech gael y wybodaeth hon mewn fformat neu iaith wahanol.

I gael gwybodaeth fanylach, ewch i'n gwefan yn

<https://bipab.gig.cymru/>